ADFENT 3

ESEIA 35:1-10; SALM 146:4-10;
LUC 1:46-55; IAGO 5:7-10; MATHEW 11:2-11

● **Gweddi agoriadol**
Dduw yr Adfent,
bydd gyda ni yn ein teithio
i'r stabl a'r tu hwnt.
Bydd gyda ni yn
ein dod ynghyd
ac yn ein teithio gyda'n gilydd.
Bydd gyda ni yn ein haddoli
a'n gweddïo gyda'n gilydd.
Bydd gyda ni yn ein teithio
i'r stabl a'r tu hwnt,
Dduw'r Adfent.

● **Moliant**
Rydym yn freintiedig
os, gan wybod mai ti sydd Dduw,
y byddwn yn ufudd
i'th air.

Rydym yn freintiedig
os, yn ein teithio,
y byddwn yn ymateb i'th alwad
i ddilyn.

Rydym yn freintiedig
wrth agosáu at ein gilydd

mewn cymdeithas, gweddi
a gwasanaeth.

Dduw gogoneddus,
rydym yn freintiedig,
yn freintiedig dros ben.

● **Cyffes**
Dduw cyfanrwydd,
iechyd a grym,
maddau ein harafwch
i agor ein calonnau mewn gweddi.
Ym mhresenoldeb Iesu
derbyniai'r deillion eu golwg,
iacheid y gwahanglwyfus,
taflai'r cloffion eu ffyn baglau
a neidio yn llawen;
pregethid newyddion da
i bawb oedd yn barod i wrando.

Down atat
gan ofni gofyn gormod,
yn amau dy gariad a'th rym.
Rho i ni ddewrder yn ein gweddïau,
a'r wybodaeth nad oes dim,
dim o gwbl,
yn amhosib i ti.

● **Diolch**
Am ffyddlondeb
Mair dy forwyn
rhown ddiolch iti.
Am y saint ym mhob oes
sydd, pan alwyd hwy,
wedi ufuddhau yn barod –
y bugail a'r ysgolhaig,
yn wynebu gwrthwynebiad
neu glod,
a'r cais i roi o'u cyfoeth
neu eu tlodi –
rhown ddiolch i ti.

Yn dy olwg di mae pawb wedi'u bendithio.
Gad i ninnau gael ein cyfri
ymhlith y rheini,
yn barod i glywed dy alwad,
a'n bywydau wedi'u cysegru
yng ngwasanaeth ein Gwaredwr a'n Brenin.